Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Gronfa Ymddiriedolaeth Plant**

**Dyddiad:** **3 Rhagfyr 2010**

**Gan:** **Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant**

Lansiwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y DU ym mis Ebrill 2005. Roedd pob plentyn a anwyd ar 1 Medi 2002 ac wedi hynny yn cael taliad cychwynnol o isafswm o £250, gyda £250 yn ychwanegol ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel. Gallai teulu a ffrindiau hefyd gyfrannu at y cyfrifon, hyd at uchafswm o £1200 y flwyddyn, ac mae'r arian wedi ei gloi yn y cyfrif nes bod y plentyn yn 18 oed. Roedd Llywodraeth y DU yn gwneud cyfraniad arall o £250 pan oedd y plentyn yn 7 oed, a £250 yn ychwanegol i blant o deuluoedd incwm is.

Yn 'Cymru'n Un', gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad i gyflwyno premiwm Cymreig i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant pob plentyn cymwys yng Nghymru. Lansiwyd cynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru yn llwyddiannus yn ystod hydref 2009. Roedd yn cyfrannu swm atodol o £50 i gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant pob plentyn cymwys yng Nghymru, a £50 yn ychwanegol ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel.

Ar 24 Mai 2010 penderfynodd Llywodraeth y DU leihau ac yna atal cyfraniadau'r llywodraeth i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Bydd y £5 miliwn a fuddsoddwyd mewn cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ledled y DU yn aros yn y cyfrifon hynny nes y bydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed, a bydd eu cynilion yn parhau i elwa ar dwf buddsoddi di-dreth. Serch hynny, ni ellir agor cyfrifon newydd.

Rwy'n hynod siomedig â phenderfyniad Llywodraeth y DU i ddod â'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant i ben. Roedd y ffaith bod y Llywodraeth yn agor cyfrif yn awtomatig ar gyfer pob plentyn yn sicrhau eu bod i gyd yn elwa o gael cyfrif cynilion. Doedd dim ots a oedd eu rhieni yn abl yn ariannol ai peidio, neu a oeddent yn gallu manteisio ar wasanaethau ariannol arferol ai peidio. Dyma oedd un o brif rinweddau'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Bydd cau'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn effeithio ar rhyw 32,000 o blant yng Nghymru bob blwyddyn, gan y byddant yn methu cael cyfrif y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Hefyd, bydd o leiaf 135,000 o blant yng Nghymru ddim

bellach yn derbyn y cyfraniad ychwanegol gan Lywodraeth y DU pan fyddant yn 7 oed. Y rheini sydd eisoes yn byw mewn tlodi cymharol fydd yn teimlo effaith hyn fwyaf.

Yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU rydym wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i ffordd o barhau i gyfrannu swm atodol Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru. Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â darparwyr cyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant er mwyn ystyried yr opsiynau. Serch hynny, ar ôl cryn bwyso a mesur mae wedi dod yn amlwg na fyddai hyn yn ymarferol ac rwy'n siomedig tu hwnt y bydd yn rhaid dirwyn cynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru i ben yn sgil hynny. **Wrth gwrs, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gyfrannu'r swm atodol i gyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant eleni, er budd tua 32,000 o blant yng Nghymru a anwyd rhwng 1 Medi 2004 a 21 Awst 2005. Y dyddiad cau ar gyfer cynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru yw 21 Ionawr 2011, ac mae llinell gymorth benodol ar gael i rieni/gwarcheidwaid sydd ag unrhyw ymholiadau. Ffoniwch: 0845 496 0590.**

I Lywodraeth Cynulliad Cymru, does dim byd pwysicach na dileu tlodi plant. Ein nod yw creu cyfleoedd cyfartal a sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi erbyn 2020. Roedd cyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn helpu i gyflawni'r amcan hwn drwy roi ased ariannol pwysig i'r dyfodol i bob plentyn, yn enwedig y rheini o deuluoedd incwm isel. Serch hynny, rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i ddod o hyd i ffyrdd newydd o barhau â rhai o fanteision y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant drwy dargedu mwy o gymorth at blant sy'n agored i niwed, a'u teuluoedd.

Rydym yn gwybod bod plant a phobl ifanc anabl a phlant a phobl ifanc y gofelir amdanynt yn grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed, a gallant wynebu pob math o rwystrau. Felly, yn dilyn cau'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, bydd £3m yn cael ei fuddsoddi i ddarparu mwy o gymorth i'r plant a'r bobl ifanc hyn, a'u teuluoedd, yn y blynyddoedd a ddaw.

Byddwn yn cyflwyno grant pontio i fyd oedolion ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Bydd hwn yn grant o £500 a delir unwaith yn unig i bob plentyn y gofelir amdano rhwng 16 ac 18 oed, wrth iddo adael gofal. Byddant yn cytuno â'r Cynghorydd Personol sut y byddant yn defnyddio'r grant. Bydd y Cynghorydd yn eu helpu i wario neu fuddsoddi'r grant yn y ffordd fwyaf addas. Byddwn yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ar y meini prawf cymhwysedd a'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r grant.

Mae plant anabl a'u teuluoedd mewn risg arbennig o fyw mewn tlodi. Felly, rydym hefyd yn rhoi blaenoriaeth i blant ag anableddau a'u teuluoedd ac rwyf wedi penderfynu darparu cyllid i wella'r cymorth sydd ar gael i'r plant hyn a'u teuluoedd drwy gyfrwng ein menter Teuluoedd yn Gyntaf. Byddwn yn cydweithio'n agos â Plant Anabl yn Cyfri Cymru wrth inni ddatblygu'r cynigion hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn adlewyrchu anghenion plant anabl a'u teuluoedd yn well.

Mae hwn yn gyfnod anodd ac rydym yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ar draws y Cynulliad, ond drwy wneud yn newidiadau hyn byddwn yn targedu

mwy o arian yn uniongyrchol at yr adnoddau rheng flaen ac yn helpu rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.